Rhif: WG27406

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion

Cynigion dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir ar gyfer y flwyddyn ysgol 2017/18

Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978 1 4734 5396 8

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol yng Nghymru gan gynnwys eu priod gyfarwyddwyraddysg; cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; undebau athrawon; ESTYN; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC); Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC); Comisiynydd Plant Cymru. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddyddiadau tymhorau ysgol sydd wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o Wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion<br>Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 6051<br>Ffacs: 029 2080 1044<br>e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau Ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon a'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Deddf Addysg 2002 (Saesneg yn unig)<br>www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents<br>Deddf Addysg (Cymru) 2014<br>www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=7186<br>*Dyddiadau tymhorau ysgol: Cynigion ar gyfer diwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgol yn cael eu pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru* (2012) Dogfen ymgynghori ynghylch chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cysoni dyddiadau tymhorau<br>http://gov.wales/consultations/education/schooltermdates/;jsessionid=F025D1B4BFDE587FB4AAFBECA33F5498?skip=1&lang=cy |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Cefndir | 2 |
| 2. Cynigion yr ymgynghoriad | 4 |
| 3. Crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law | 5 |
| 4. Trosolwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad | 6 |
| 5. Y ffordd ymlaen | 16 |
| 6. Rhestr o’r ymatebwyr | 17 |
| Atodiad: Grwpiau awdurdodau lleol | 18 |

# 1. Cefndir

1.1 Newidiodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 y trefniadau ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yng Nghymru. O ganlyniad, tra bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion, mae'n rhaid iddynt gydweithio'n awr i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosibl. Os nad ydynt yn gallu cytuno, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau er mwyn sicrhau bod dyddiadau tymhorau yn gyson ledled Cymru.

1.2 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau a bennir ar gyfer pob ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) yn eu hardaloedd nhw erbyn diwrnod gwaith olaf o Awst. Cyflwynodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ddyddiadau arfaethedig eu tymhorau yn 2017/18 erbyn 28 Awst 2015.

1.3 Roedd dyddiadau'r tymhorau a hysbyswyd yn perthyn i ddau grŵp. Roedd Grŵp A yn cynnwys dyddiadau wedi'u cytuno gan 16 awdurdod lleol – gan gynnwys holl awdurdodau'r De; tri o awdurdodau'r Canolbarth a'r Gorllewin (Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro); ac Ynys Môn yn y Gogledd. Roedd Grŵp B yn cynnwys dyddiadau y cytunwyd arnynt gan y 6 awdurdod sy'n weddill, gan gynnwys pump yn y Gogledd a Phowys. Mae dadansoddiad o'r dyddiadau a bennwyd ar gyfer Grwpiau A a B i'w weld yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

1.4 Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau yn dangos rhywfaint o gysondeb rhwng y ddau grŵp o ran y dyddiadau a bennwyd, sef rhai hanner tymor yr hydref 2017, rhwng 30 Hydref a 3 Tachwedd; gwyliau'r Nadolig rhwng 25 Rhagfyr 2017 a 5 Ionawr 2018 a hanner tymor y Sulgwyn 2018 rhwng 28 Mai ac 1 Mehefin. Fodd bynnag, mae dyddiadau eraill yn wahanol rhwng y ddau grŵp, sef dechrau a diwedd y flwyddyn ysgol; hanner tymor y gwanwyn yn 2018; a gwyliau'r Pasg yn 2018.

1.5 Yn ail flwyddyn y trefniadau gosod dyddiadau tymhorau newydd, bu cynnydd yn nifer yr hysbysiadau dyddiadau tymhorau newydd a gafwyd gan awdurdodau lleol ar ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn eu hardaloedd nhw. Erbyn mis Hydref 2015, derbyniwyd 107 (64%) o hysbysiadau wedi'u llofnodi gan gyfanswm o 168 o'r ysgolion hyn. Roedd pob un o'r 107 hysbysiad wedi'u llofnodi yn cyd-fynd â'u hawdurdodau lleol. Roedd 72 (67%) o'r rhain yn cyd-fynd â'r awdurdodau yn Grŵp A a'r 35 yn weddill (33%) yn cyd-fynd ag awdurdodau yn Grŵp B.

1.6 Cafwyd hysbysiadau heb eu dilysu gan 20 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig pellach, fel arfer ar ffurf hysbysiadau heb eu llofnodi neu hysbysiadau anghyflawn neu gadarnhad a dderbyniwyd gan awdurdod lleol. Roedd 18 o'r rhain yn cytuno â'u hawdurdod lleol ac wedi dewis y dyddiadau yng Ngrŵp A, tra'r oedd y 2 arall wedi dewis dyddiadau nad oedd yn y naill Grŵp na'r llall.

1.7 Wrth ystyried hysbysiadau heb eu dilysu, cafwyd gwybodaeth gan 127 o'r 167 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, gyda 90 (71%) yn dewis dyddiadau yng Ngrŵp A, 35 (28%) yn dewis dyddiadau yng Ngrŵp B a dwy ysgol (1%) yn dewis dyddiadau eraill.

1.8 Bu cynnydd yn lefel y cysondeb ar gyfer 2017/18 o gymharu â 2016/17. Er gwaethaf eu hymdrechion, fodd bynnag, ni allai awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig gytuno ar holl ddyddiadau tymhorau ysgolion.

1.9 Felly, bu’n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried defnyddio eu pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol a’r cyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â’u dyddiadau tymhorau, er mwyn cyson i ddyddiadau ledled y wlad.

## 2. Cynigion yr ymgynghoriad

2.1 Cyn defnyddio'u pwerau cyfarwyddo, mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad tri mis rhwng 9 Tachwedd 2015 ac 1 Chwefror 2016 yn holi am farn ar y dyddiadau tymhorau yr oedd Gweinidogion Cymru'n bwriadu eu cyflwyno ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru am 2017/18 a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig. Cyhoeddwyd fersiwn addas i blant hefyd.

2.2 Y dyddiadau yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arnynt oedd y rhai a hysbyswyd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru, h.y. rhai yng Ngrŵp A yr Atodiad. Roedd hyn ar y sail fod mwyafrif clir o awdurdodau lleol (16 i 6) ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (72 i 35) neu (90 i 35) os ydym yn cynnwys gwybodaeth heb ei dilysu) wedi dewis y dyddiadau hyn.

2.3 Y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2017/18 yr ymgynghorodd Gweinidogion Cymru arnynt oedd:

| | |
|---|---|
| Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol | Dydd Llun 4 Medi 2017 |
| Gwyliau hanner tymor yr hydref | Dydd Llun 30 Hydref 2017 i ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 |
| Gwyliau'r Nadolig | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 i ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 |
| Hanner tymor y gwanwyn | Dydd Llun 19 Chwefror 2018 i ddydd Gwener 23 Chwefror 2018 |
| Gwyliau'r Pasg | Dydd Gwener 30 Mawrth 2018<br>(h.y. y diwrnod olaf yn yr ysgol fydd dydd Iau 29 Mawrth) i ddydd Gwener 13 Ebrill 2018 |
| Hanner tymor y Sulgwyn | Dydd Llun 28 Mai 2018 i ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 |
| Diwrnod ola'r ysgol | Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 |

## 3. Crynodeb o’r ymatebion a ddaeth i law

3.1 Cafwyd 55 o ymatebion i’r ymgynghoriad, a gallwn eu rhannu i’r categorïau canlynol:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Athro** | **3** | **Llywodraethwr** | **1** | **Rhiant/gofalwr** | **23** | **Awdurdod esgobaethol** | **2** |
| | | | | | | | |
| **Awdurdod lleol** | **9** | **Ysgol** | **2** | **Undeb** | **4** | **Arall** | **11** |

3.2 Roedd y 55 o ymatebion yn cynnwys 5 ymateb i’r fersiwn pobl ifanc. Hefyd, cafwyd 19 o ymatebion unigol gan aelodau o’r grŵp Llais Rhieni. Dewisodd y mwyafrif ohonynt fod yn anhysbys, ac maent wedi’u nodi dan y categori “rhiant/gofalwr” yn nhabl 3.1 uchod.

## 4. Trosolwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad

4.1 Oni nodir yn wahanol, mynegir canrannau drwy’r adroddiad hwn fel mesur o ymatebwyr i bob cwestiwn. Mae’r holl ganrannau wedi’u talgrynnu i fyny neu i lawr i’r rhif cyfan agosaf.

4.2 Gofynnodd y ddogfen ymgynghori un cwestiwn penodol ar ddyddiadau arfaethedig y tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18 a’r cyfarwyddyd drafft arfaethedig.

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno â’n cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2016/17 a bennir yn y tabl ym mhwynt 4.1, a’r cyfarwyddyd drafft arfaethedig yn yr Atodiad a drafodwyd ym mhwynt 4.2?**

4.3 Ymatebodd pob un o’r 55 i’r cwestiwn hwn. Roedd 28 (51%) yn cytuno â’r cynigion, 16 (29%) yn anghytuno ac 11 (20%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

4.4 **Roedd y 28 o ymatebwyr a oedd yn cytuno â’r dyddiadau arfaethedig yn cynnwys:**

- 7 awdurdod lleol, 4 a nododd mai’r dyddiadau dan sylw oedd y rhai a gyflwynwyd ganddynt fel rhan o’r gwaith hysbysu, ac yr oedd holl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig eu hardal wedi cytuno iddynt.

- 4 ymateb gan fforymau ieuenctid a oedd yn cynrychioli safbwyntiau nifer o blant a phobl ifanc. Daeth yr ymatebion hyn drwy fersiwn pobl ifanc y ffurflen ymateb.

- 3 ysgol gan gynnwys un ysgol uwchradd sefydledig, un ysgol uwchradd Gymraeg ac un ysgol gynradd cyfrwng Saesneg.

- 3 undeb ysgolion gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru (NAHT) a ddywedodd ei bod hi’n well dechrau’r flwyddyn ysgol ddydd Llun 4 Medi 2017 yn hytrach na ddydd Gwener 1 Medi 2017 a bod y dyddiadau arfaethedig yn darparu ar gyfer dyddiadau tymhorau ysgol mwy cytbwys gydol y flwyddyn.

- Estyn a ddywedodd y byddai cysoni ysgolion yn ddefnyddiol iawn i Estyn gynllun ei raglen arolygu.

- Llywodraethwyr Cymru ar y sail bod y dyddiadau’n cynrychioli barn y mwyafrif.

- 9 ymatebwr arall ddewisodd barhau’n anhysbys, ond yn rhieni/gofalwyr yn bennaf.

4.5 **Roedd yr 16 o ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r dyddiadau tymhorau arfaethedig yn cynnwys:**

- Awdurdod lleol Powys ar y sail y byddai'r ddau ddiwrnod olaf yn gwrthdaro â dau ddiwrnod cynta Sioe Fawr 2018. Dywedodd yr awdurdod y byddai tua dwsin o ysgolion yn cael eu heffeithio'n ddrwg gan y cynnydd sylweddol mewn traffig yn ystod y deuddydd hynny. Roedd un o'r ysgolion yn cael ei defnyddio fel canolfan weithredol ar gyfer yr heddlu, a dwy arall fel canolfannau seibiant mewn argyfwng. Awgrymwyd hefyd y byddai clustnodi'r ddau ddiwrnod hynny fel dyddiau disgyblion yn arwain at lai o bresenoldeb. Mae'r awdurdod wedi ystyried yr opsiwn o neilltuo 23 a 24 Gorffennaf yn ddyddiau heb ddisgyblion (hyfforddiant mewn swydd), ond gan eu bod yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol, credwyd na fyddai hyn yn darparu digon o fanteision addysg a hyfforddiant ym maes arwain a rheoli i staff ysgol.

- Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS) a anghytunodd ar y sail y byddai nifer fawr yn gadael ysgolion pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt. Roedd y Gymdeithas yn awgrymu cwtogi diwrnod ar wyliau'r Pasg, a thynnu diwrnod o wyliau hanner tymor y gwanwyn neu'r Sulgwyn.

- Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru, oedd yn derbyn fod cysoni'n dyddiadau tymhorau yn syniad da gan y byddai'n fanteisiol i sefydliadau gwirfoddol fel yr Urdd, y sgowtiaid/geidiaid wrth gynllunio digwyddiadau addysgol anffurfiol gan y byddai holl ysgolion Cymru yn cymryd gwyliau'r un adeg – ond yn anghytuno â'r dyddiadau oherwydd yr un pryderon â'r Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol. Ymhlith eu pryderon oedd y byddai plant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai o'u haelodau eu hunain, yn colli cyfleoedd datblygu addysgol pwysig.

- Un llywodraethwr ysgol ac un ysgol gynradd yn anghytuno, gyda'r olaf yn awgrymu newidiadau i'r gwyliau a oedd yn cynnwys gorffen ddydd Mercher 28 Mawrth 2018 a chael gwyliau ychwanegol dros y Nadolig.

- Esgobaeth Wrecsam a anghytunai ar y sail na allent dderbyn cynnig ar ddyddiadau tymhorau sy'n effeithio ar ysgol Babyddol wirfoddol a gynorthwyir, gan nad oedd neb wedi ymgynghori â'r awdurdod esgobaethol a heb drafodaeth neu ddiddordeb yn nhrefniant, cwricwlwm addysg a phwyslais y Sector. Er bod yr esgobaeth o'r farn bod dyddiadau gwyliau hanner tymor yn weddol gytbwys a bod Wythnos Sanctaidd y Pasg yn digwydd adeg y tymor ysgol, roedden nhw'n credu nad oes gwir gydnabyddiaeth o fanteision a gwerth y tymhorau, y gwyliau a'r cyfnodau gwyliau yn y cylch dysgu. Credwyd bod tymor yr hydref yn rhy hir, ac nad oedd digon o seibiant cyn y Nadolig.

- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) oedd yn poeni am hyd tymor yr hydref. Roedd yr undeb hefyd o'r farn mai ychydig iawn o ymgynghori oedd ag undebau llafur ar lefel awdurdodau lleol, ac y dylai Llywodraeth

Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drafod gydag undebau eu gweithlu ysgolion cyn pennu dyddiadau tymhorau. Hefyd, *"there is no acknowledgement or recognition in the draft Direction of the need to ensure that members of the workforce, who have made arrangements and financial commitments based on the dates published previously by schools and local authorities, will be allowed to take paid leave of absence".*

- roedd 9 ymatebydd anhysbys arall yn anghytuno, y rhan fwyaf yn rhieni neu'n ofalwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.6 Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y pryderon a godwyd gan awdurdod lleol Powys ac eraill ynglŷn â'r ffaith fod deuddydd ola'r tymor yn gwrthdaro â dau ddiwrnod cyntaf y Sioe Fawr. Fodd bynnag, dyma'r dyddiadau a ddewiswyd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ac ysgolion wnaeth gyflwyno hysbysiadau ac ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydweithio wrth bennu eu dyddiadau tymhorau. Felly roedd cyfle i Bowys leisio pryderon am y Sioe Frenhinol gydag awdurdodau lleol eraill y tu mewn a'r tu allan i ardal eu consortia. Mae'n ymddangos nad yw'r trefniadau newydd ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yn gosod cynsail mewn perthynas â'r Sioe Fawr, gan fod ysgolion ar agor ar ddeuddydd cynta'r Sioe pan bennwyd dyddiadau tymhorau gan awdurdod lleol Powys yn 2013, ac ar agor ar ddiwrnod cynta'r Sioe yn 2014 a 2015.

4.7 Rydym yn nodi pryderon penodol un ysgol yn arbennig ar fater rheoli traffig, a'r cyfeiriad at y ffaith y gallai damweiniau ddigwydd wrth i rieni ollwng a chodi eu plant o'r ysgol. Byddai disgwyl i benaethiaid gwblhau asesiad risg er mwyn penderfynu a ddylai'r ysgol gau neu beidio. Fel y nododd yr awdurdod lleol, gall ysgolion ddewis dynodi'r ddau ddiwrnod yn ddiwrnodau HMS. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r ffaith ei bod hi'n well gan yr awdurdod lleol gynnal hyfforddiant ar ddechrau'r flwyddyn, mae angen pwyso a mesur hyn gydag ystyriaethau eraill, gan gynnwys pryderon iechyd a diogelwch. Unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi bydd gan awdurdod lleol Powys ddwy flynedd a mwy i gynllunio i sicrhau bod mesurau iechyd a diogelwch a lleddfu traffig digonol ar waith yn barod erbyn Sioe Fawr 2018 a/neu sicrhau bod unrhyw hyfforddiant mewn swydd yn addas ac yn diwallu anghenion yr ysgol.

4.8 Pa bynnag ddewis mae'r awdurdod lleol ac ysgolion yn penderfynu arno, ni fyddai plant a phobl ifanc yn colli cyfleoedd datblygu addysgol gan y byddent yn dal i allu mynychu dau ddiwrnod ola'r sioe.

4.9 O ran pryderon am hyd tymor yr hydref, byddai disgwyl i awdurdodau lleol ystyried sawl ffactor wrth gydweithio i bennu dyddiadau'n tymhorau. Byddai hyn yn cynnwys hyd tymhorau, gyda'r nod o sicrhau eu bod mor gyfartal â phosib. Roedd 16 awdurdod lleol wedi dewis dyddiadau'r tymhorau yng Ngrŵp A. Dylid nodi y byddai dewis dyddiadau'r tymhorau a gynigiwyd gan Grŵp B yn arwain at dymor yr hydref hirach.

4.10 O safbwynt rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig ynglŷn â phwy i ymgynghori â nhw cyn cytuno ar ddyddiadau, fel y nodir uchod yr awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethol hynny ddylai gadw'r cyfrifoldeb dros bennu dyddiadau tymhorau. Nid yw'r trefniadau newydd yn Neddf Addysg 2014 yn newid hyn. Fodd bynnag, mae'n cynnwys dyletswydd newydd i drafod dyddiadau'r tymhorau ymysg ei gilydd, fel bod dyddiadau'r tymhorau naill ai'r un fath neu cyn debyced ag y gallant fod. Y tu hwnt i hynny, mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu a ydynt am

gynnal ymgynghoriad ychwanegol. Nid oes dim yn y trefniadau newydd sy'n rhwystro ysgolion rhag trafod dyddiadau arfaethedig eu tymhorau gyda'u hawdurdod esgobaethol.

4.11 Dan drefniadau newydd Deddf Addysg 2014, dylid nodi os nad yw awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn gallu dod i gytundeb er gwaethaf eu hymdrech gorau yna mae gan Weinidogion Cymru'r pwerau i ddweud wrthynt beth fydd dyddiadau'r tymhorau. Cyn rhoi cyfarwyddyd iddynt, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori. Mae hyn yn darparu cyfle i staff ysgolion ac Undebau i gyflwyno eu barn, rhywbeth nad oedd yn bodoli cyn y Ddeddf hon.

4.12 O ran yr awgrym y dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiadau na chafodd eu cynnig gan awdurdodau lleol, fel y soniwyd eisoes mae awdurdodau lleol, fel y soniwyd eisoes mae awdurdodau lleol, fel y soniwyd eisoes mae awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau. Y dyddiadau yr ymgynghorwyd arnynt oedd y rhai a gynigiwyd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cynnig ystyried dyddiadau na chafodd eu cynnig ac nas ymgynghorwyd yn eu cylch.

4.13 O safbwynt caniatáu i aelodau o'r gweithle gymryd absenoldeb â thâl lle maen nhw eisoes *wedi gwneud trefniadau ac ymrwymiadau ariannol yn seiliedig ar y dyddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir ac ysgolion sefydledig fod yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau newydd ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau, a fu'n destun ymgynghoriad helaeth a rhagrybudd. Bydd yr awdurdodau hynny sy'n penderfynu cyhoeddi dyddiadau tymhorau dros dro yn gwybod mai dyddiadau dros dro yw'r rhain, ac y gallant newid, a bod angen sicrhau bod rhieni a staff yn gwbl ymwybodol o hyn. Materion lleol rhwng yr awdurdod lleol/ysgol a'r gweithiwr yw absenoldeb â thâl.*

**4.14 Roedd yr 16 o ymatebwyr nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno'n cynnwys:**

- Barry Youth Action – roedd y sylwadau'n cynnwys dweud bod y system bresennol eisoes yn gweithio. Roedd rhai eisiau i wyliau'r Nadolig ddechrau'n gynt, eraill yn teimlo bod dyddiad cychwyn 4 Medi yn iawn tra'r oedd eraill yn anghytuno ac yn teimlo y dylai gychwyn ddiwrnod yn ddiweddarach.

- Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a ddywedodd *"Rydym yn cytuno â'r rhesymau dros y cynigion, yn enwedig oherwydd y problemau mae gwahaniaethau'n eu hachosi i ysgolion eraill a gynhelir sy'n rhannu gwasanaethau ag ysgolion pabyddol"* ond gan ychwanegu *"lle mae cytundeb cyffredinol o fewn y sector Catholig, a lle mae'r effaith ar ddysgwyr a theuluoedd wedi'i rheoli neu ei lleihau, byddem yn croesawu'r cyfle i aros ar agor, trwy gytundeb yr holl bartïon, yn ystod yr wythnos cyn y Pasg er mwyn helpu dysgwyr i baratoi'n briodol at ddathliadau'r Pasg".*

- Dywedodd Cyngor Sir Ynys Môn fod y dyddiadau'n gwrthdaro â'r Sioe Fawr, ond dylid nodi bod y dyddiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r rhai a bennwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ac yr hysbyswyd Llywodraeth Cymru amdanynt.

- Roedd eraill nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn cynnwys un Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru a 7 rhiant/gofalwr, gyda dau'n dweud y gallai prisiau godi yn ystod y gwyliau a gallai gormod o bobl heidio i gyrchfannau ymwelwyr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.15 Bu ymgynghori helaeth ar drefniadau newydd ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau, a chafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r pryderon y gallai prisiau gwyliau godi, neu y gallai cyrchfannau ymwelwyr fod yn orlawn yn sgil cysoni'r dyddiadau, does dim tystiolaeth i ddweud a fydd hyn yn ffactor, yn enwedig o gofio bod dyddiadau tymhorau yng ngweddill y DU yn debygol o fod rywfaint yn wahanol i rai Cymru.

4.16 Byddai caniatáu i leiafrif o ysgolion bennu dyddiadau nad ydynt yn cyd-fynd â holl ysgolion eraill Cymru yn groes i'r egwyddor o gysoni. Fodd bynnag, wrth gydweithio i sicrhau cysondeb, y disgwyl yw y byddai materion yn ymwneud â gwyliau crefyddol yn un o'r ystyriaethau y byddai ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu hystyried.

**Digwyddiadau ymgynghori Plant a Phobl Ifanc**

4.17 Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori, casglwyd barn 215 o blant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru mewn 9 sesiwn ymgynghori. Roedd 115 rhwng 9 ac 11 oed, 75 rhwng 12 ac 16 oed, ac 16 rhwng 17 ac 18 oed. Ni wnaeth 9 nodi eu hoedran.

4.18 Un o'r cwestiynau oedd. **Cwestiwn 1 - *"Ydych chi'n meddwl bod y dyddiadau yma'n syniad da?***

4.19 Dyma grynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn:

| | |
|---|---|
| Ydyn: | 62 |
| Nac ydyn: | 105 |
| Ddim yn gwybod: | 44 |
| Gwag: | 4 |

4.20 Dyma rai o sylwadau'r 62 a gytunodd:

- *"Dw i'n credu byddai pennu gwyliau ar gyfer Cymru gyfan neu hyd yn oed y DU i gyd yn gwneud gofal plant yn haws i lawer o bobl". (disgybl 14 oed, y Canolbarth)*
- *"Dw i'n credu bod yr holl ddyddiadau hyn yn syniad da. Yr unig set o ddyddiadau oedd fy mhoeni i oedd rhai'r Nadolig, ond sylweddolais mai felly oedd patrwm y dyddiadau". (disgybl 12 oed, y Gogledd)*

4.21 Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a oedd yn anghytuno oherwydd y teimlad bod y dyddiadau arfaethedig yn rhy agos at y Nadolig. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Na, achos dim ond un diwrnod fyddai gennych cyn noswyl Nadolig felly fyddai dim amser i baratoi". (disgybl 10 oed, Wrecsam)*

- *“Mae rhai o’r dyddiadau’n annheg iawn, yn enwedig y Nadolig. Mae’r Nadolig yn ymwneud â threulio amser gyda’r teulu a dw i ddim yn teimlo bydd gennym ddigon o amser cyn y Nadolig, Dw i’n credu y dylai fod rhwng y 18fed a’r 2il. Mae popeth arall yn iawn”. (Disgybl 12 oed, y Gogledd)*

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.22 Awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynhelir/ysgolion sefydledig sy’n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau, ond dan y ddyletswydd newydd, mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod y dyddiadau naill ai’r un fath neu mor debyg â phosib. Roedd pob un o’r 22 awdurdod lleol a’r holl 107 o ysgolion gwirfoddol a reolir/ysgolion sefydledig a anfonodd hysbysiadau wedi’u llofnodi, wedi cytuno ar y dyddiadau 25 Rhagfyr 2017-5 Ionawr 2018. Er ein bod ni’n deall y sylwadau a’r pryderon fod ysgolion yn cau yn rhy agos at ddydd Nadolig, roedd pawb wnaeth anfon hysbysiadau yn cytuno ynglŷn â hyn.

**C2. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Byddem yn croesawu’ch safbwyntiau ar effaith bosibl ein holl gynigion ar:**

**a) anabledd**
**b) hil**
**c) rhyw ac ailbennu rhywedd**
**d) oedran**
**e) crefydd a chred a diffyg cred**
**f) cyfeiriadedd rhywiol**
**g) hawliau dynol.**

4.23 O’r 21 (38%) o’r 55 o ymatebwyr a ddewisodd ymateb i’r cwestiwn hwn:

- Nid oedd 7 yn credu bod dyddiadau’r tymhorau’n effeithio o gwbl ar unrhyw agwedd ar gydraddoldeb.

- Dywedodd 4 ymatebwr fod y dyddiadau’n ystyried yr Wythnos Sanctaidd ac felly’n cefnogi anghenion ysgolion Catholig. Er hynny, gofynnodd un ymatebwr i glystyrau o ysgolion Catholig barhau ar agor yn ystod yr Wythnos Sanctaidd fel mater o drefn a bod rhoi cyfarwyddyd i’r ysgolion hyn i gysoni yn gallu effeithio ar *“ffurfiant ysbrydol a chrefyddol y dysgwyr”.* Cafwyd ymateb arall gan Esgobaeth Wrecsam a ddywedodd fod yr ymgynghoriad *“yn rhwystro’r Esgobaeth rhag rhoi cyfarwyddyd i gyrff llywodraethu ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir ar bennu dyddiadau eu tymhorau”.*

- Dywedodd 4 ymatebwr y gallai’r dyddiadau effeithio ar ddisgyblion o grefyddau gwahanol e.e. bod angen ystyried gwyliau crefyddol eraill fel Eid.

- Roedd ymatebwyr arall o’r farn bod y cynigion yn ymwneud â’r Sioe Fawr yn torri hawliau dynol, yn yr ystyr y dylai pobl gael *“rhyddid i fynychu un o gonglfeini diwylliannol Cymru”.* Dywedodd ymatebwr arall bod gan Lywodraeth Cymru

ddyletswydd i gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Nododd rhywun arall y byddai'n effeithio ar ddiwrnodau allan gan y byddai pawb ar wyliau'r un pryd.

- Dywedodd NAHT Cymru mai'r prif nod ar gyfer pob disgybl fyddai sicrhau tymhorau wedi'u rhannu'n gyson, sy'n galluogi disgyblion i gynnal lefelau presenoldeb da a manteisio i'r eithaf ar amser dysgu ac addysgu, waeth beth yw'r meysydd cydraddoldeb a restrwyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.24 Cynhaliwyd asesiad trylwyr o effaith Deddf Addysg Cymru 2014 yn ei chyfanrwydd ar gydraddoldeb, sy'n cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ar gynigion i ddeddfu ar gysoni dyddiadau tymhorau ysgol. Mae hyn yn ystyried gwerthoedd ysgolion ffydd:

http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/education-act/?skip=1&lang=cy

4.25 Mae cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (sy'n cynnwys Ysgolion Catholig) yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ysgolion, ond mae ganddynt ddyletswydd i gydweithio yn awr er mwyn sicrhau bod y dyddiadau hyn naill ai'r un fath neu mor debyg â phosib. Os bydd awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a reolir/ ysgolion sefydledig yn llwyddo i gytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae gan Weinidogion Cymru bŵer dan Ddeddf Addysg 2002 i roi cyfarwyddyd ar ddyddiadau tymhorau er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer dyddiadau tymhorau'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

4.26 Nid yw'r cynigion cyfredol yn effeithio ar gyfnod y Pasg ac roedd pob Ysgol Gatholig a gyflwynodd hysbysiadau wedi'u llofnodi yn cytuno â dyddiadau eu hawdurdod lleol perthnasol, gan gynnwys 15 o Ysgolion Catholig y Gogledd a bennodd ddyddiadau a fyddai'n golygu y byddai'r ysgolion ar gau yn ystod yr Wythnos Sanctaidd.

4.27 Mater i awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir/ysgolion sefydledig yw ystyried yr effaith ar wyliau crefyddol fel Eid.

**C3. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

4.28 Penderfynodd18 (33%) o'r 55 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn, a chynnig sawl awgrym.

- Roedd tri ymatebwr, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Dinas Casnewydd yn credu mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau, gan nodi bod y gwaith o gyrraedd y cam hwn wedi bod yn un sylweddol. Roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn rhannu'r farn hon, ond awgrymodd hefyd y dylid cytuno ar ddyddiadau tymhorau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

- Roedd dau ymatebwr arall yn cyfeirio at yr effaith ar y Sioe Fawr; problemau gyda diwrnodau HMS yn cyfaddawdu dyddiadau tymhorau ysgol; a'u pennu ar ddyddiadau oedd Lloegr.

- Roedd yr ymatebion gwahanol i'r rhai a bennir yn weddill yn cynnwys y ffaith fod yr ystyriaeth a roddwyd i rieni sy'n gweithio yn anghymesur o gymharu â'r effaith ar ysgolion. Awgrymodd un y dylai hyd tymhorau fod yn sefydlog gan anwybyddu dyddiadau'r Pasg, ac roedd ymatebwr arall yn poeni am broblemau'r anabl wrth gynllunio ar gyfer y Nadolig.

- Roedd tri ymatebwr yn gofyn am gyhoeddi dyddiadau'r tymhorau ynghynt o gymharu â'r sefyllfa y llynedd mewn perthynas â dyddiadau tymhorau 2016/17, pan gyhoeddwyd hynny ym mis Mehefin 2015.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.29 Mae Deddf Addysg 2002 yn nodi hawl awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir/ysgolion sefydledig i bennu dyddiadau tymhorau. Gallai gwrthwneud yr hawl hon i bennu dyddiadau tymhorau gael ei weld fel camddefnydd o bwerau gan Weinidogion Cymru. Felly, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i drafftio ar y sail bod awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a reolir/ysgolion sefydledig yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion ond hefyd bod dyletswydd arnynt hefyd i gydlynu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg â phosib. Dim ond os na fydd unrhyw gysondeb y bydd Gweinidogion Cymru'n ymyrryd ac yn rhoi cyfarwyddyd ar ddyddiadau tymhorau. Y disgwyl yw, wrth benderfynu pa ddyddiadau i'w pennu, y byddai Llywodraeth Cymru'n ystyried y dyddiadau y cawsant hysbysiad yn eu cylch yn flaenorol. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn rhoi cyfarwyddyd.

4.30 Nid yw'n bosibl pennu dyddiadau tymhorau flynyddoedd lawer ymlaen llaw oherwydd ei bod yn amhosibl rhagweld digwyddiadau ac amgylchiadau arwyddocaol a allai godi. Fodd bynnag, gallai Gweinidogion Cymru newid y dyddiadau'n ddiweddarach i ystyried yr amgylchiadau hyn pe baent yn codi. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r dasg o bennu dyddiadau tymhorau ddod yn haws bob blwyddyn, gan y bydd y broses yn aros yr un fath ac y dylai'r consortiwm/awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir/ysgolion sefydledig fod wedi sefydlu rhwydweithiau erbyn hyn i drafod, cytuno a chreu hysbysiadau ar gyfer eu hysgolion, a ddylai olygu bod y broses o bennu dyddiadau tymhorau yn haws bob blwyddyn. Bydd y polisi ar ddyddiadau tymhorau'n cael ei adolygu yn 2017/2018.

4.31 Yn Lloegr, yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig sy'n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer yr ysgolion hynny. Nid oes cysondeb yn Lloegr felly ac mae'n bosibl y bydd amrywiaeth eang o ddyddiadau yn cael eu pennu. O'r herwydd, mae'n annhebygol y byddai gennym "batrwm" pendant o ddyddiadau tymhorau o Loegr i'w hystyried wrth bwyso a mesur dyddiadau tymhorau yng Nghymru.

4.32 Ar hyn o bryd, mae'r pŵer i bennu pwy sy'n penderfynu pryd y cynhelir dyddiau HMS yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol yn Whitehall. Felly, nid oedd modd

pwyso a mesur y posibilrwydd o ganiatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd wrth bennu dyddiau HMS pan wnaed newidiadau i'r drefn ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau yn Neddf Addysg (Cymru) 2014 a gyflwynwyd yn ddiweddar. Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a phenaethiaid yw trefnu ac amseru dyddiau HMS.

4.33 Gall ysgolion elwa ar gysoni dyddiadau tymhorau am y rhesymau a godwyd gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, yn yr ystyr y gallai dyddiadau tymhorau amrywiol achosi problemau i ysgolion a gynhelir sy'n rhannu gwasanaethau ag ysgolion Catholig. Dylid nodi hefyd bod mwyafrif yr undebau gweithwyr ysgolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn yn cytuno â'r cynigion. Mae hyn yn cynnwys Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a Chymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, sy'n credu y dylai dyddiadau tymhorau fod o hyd penodol. Er nad yw'r dyddiadau tymhorau arfaethedig o hyd cwbl sefydlog, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol ac ysgolion ystyried creu tymhorau gweddol gyfartal wrth bennu eu dyddiadau tymhorau.

4.34 Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw ystyried anghenion pobl anabl yn ystod cyfnod y Nadolig. Byddai Gweinidogion Cymru yn amharod i ddefnyddio eu pwerau i newid Gwyliau'r Nadolig 2017 pan mae'r cyfnod hwn eisoes wedi'i gysoni ledled Cymru.

**Digwyddiadau ymgynghori Plant a Phobl Ifanc – Cwestiwn 2 - *"Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw beth rydyn ni wedi'i fethu?***

4.35 Dyma grynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn:

| | |
|---|---|
| Ydw: | 41 |
| Nac ydw: | 66 |
| Ddim yn gwybod: | 9 |
| Gwag: | 99 |

4.36 Cafwyd sylwadau pellach am gyfnod y Nadolig, sylwadau am y gwyliau crefyddol gwahanol dan ystyriaeth, cynnydd posibl ym mhrisiau gwyliau, ac ystyriaethau'n gysylltiedig â phobl ag anableddau, materion yr ymatebwyd iddynt uchod. Dyma flas ar y sylwadau:

- *"Mae Cristnogion yn dathlu Noswyl Nadolig hefyd, felly fyddai ganddyn nhw ddim amser i baratoi". (Disgybl 10 oed, Wrecsam)*
- *"Dw i'n credu y dylid caniatáu diwrnodau i ffwrdd at ddibenion crefyddol eraill". (Disgybl 10 oed, y De)*
- *"Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i gwmnïau godi prisiau" (16 oed)*
- *Dw i'n meddwl na fyddai pobl ag anableddau penodol yn gallu ymdopi gyda faint o wyliau fydd ar gael (11 oed)*

**E-byst a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad**

4.37 Law yn llaw ag ymatebion i'r ymgynghoriad, cafodd Llywodraeth Cymru 18 e-bost yn ymwneud â'r ymgynghoriad. Roedd y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â materion y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau i newid nifer a hyd tymhorau neu y dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiadau'r tymhorau ac ymgynghori arnynt wedyn.

4.38Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys mynd ati'n fwriadol i bennu dyddiadau tymhorau gwahanol i Loegr er mwyn manteisio ar wyliau rhatach, ac awgrymiadau ynghylch amseru ac amlder diwrnodau HMS hefyd.

4.39 Roedd pum e-bost yn anghytuno â'r dyddiadau ar y sail eu bod yn gwrthdaro dau ddiwrnod cyntaf y Sioe Fawr. Fodd bynnag, roedd awduron tri e-bost arall yn cytuno â'r dyddiadau arfaethedig.

4.40 Pan oedd amserlenni'r ymgynghoriad yn caniatáu hynny, roedd cyfle i'r rhai wnaeth e-bostio gyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau y gellid ystyried eu sylwadau ar y dyddiadau arfaethedig ynghyd â'r ymatebion ffurfiol eraill cyn diwedd y cyfnod ymgynghori. Dewisodd un ymatebwr e-bost ymateb i'r ymgynghoriad hefyd, ac mae crynodeb yr ymgynghoriad yn adlewyrchu hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

4.241 Rydym yn nodi'r awgrymiadau i symud oddi wrth y model tri thymor neu newid hyd gwyliau presennol (e.e. lleihau tymor yr haf a chael hanner tymor hirach). Fodd bynnag, byddai gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith sylweddol ar gyflog ac amodau athrawon, sy'n fater heb ei ddatganoli. Byddai newid patrwm y flwyddyn ysgol hefyd yn cael cryn effaith ar fywydau plant ysgol, eu teuluoedd, busnesau a'r gymdeithas yn gyffredinol hefyd. Byddai angen ymgynghori helaeth ar y mater hwn, ac nid yw dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

## 5. Y ffordd ymlaen

5.1 Hoffai Llywodraeth Cymru fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd y Gweinidog yn ystyried yr adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion a'i ganfyddiadau wrth benderfynu ar y cyfeiriad parhaol ar gyfer dyddiadau tymhorau ysgol 2017/18 cyn gynted a phosib.

## 6. Rhestr o'r ymatebwyr

Ysgol Eirias
Amanda Disley
Ysgol Uwchradd Bodedern
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Grŵp Gweithredu Ieuenctid Penarth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Barri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Fforwm Ieuenctid y Fro
Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Ysgol Gynradd Sully
Cyngor Dinas Casnewydd
Gwion Dafydd
Estyn
Cyngor Sir y Fflint
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
Cyngor Sir Ynys Môn
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy
Cyngor Sir Ceredigion
Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
Llywodraethwyr Cymru
Cyngor Sir Powys
Esgobaeth Wrecsam
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) Cymru
Canolfan Deuluoedd Felinfoel x 3 (Llais Rhieni)
Canolfan Deuluoedd Porth Tywyn (Llais Rhieni)

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod roedd 23 yn dymuno aros yn ddienw.

# Atodiad: Grwpiau awdurdodau lleol

| Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol awdurdodau lleol ar gyfer 2017/18 | | |
|---|---|---|
| **Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol** | **Grŵp awdurdodau lleol A** | **Grŵp awdurdodau lleol B** |
| **Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol 2017-18** | Dydd Llun 4 Medi 2017 | Dydd Gwener 1 Medi 2017 |
| **Gwyliau hanner tymor yr Hydref (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)** | Dydd Llun 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 | Dydd Llun 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 |
| **Gwyliau'r Nadolig ( h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)** | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 |
| **Hanner tymor y Gwanwyn (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)** | Dydd Llun 19 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener 23 Chwefror 2018 | Dydd Llun 12 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener 16 Chwefror 2018 |
| **Gwyliau'r Pasg (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)** | Dydd Gwener 30 Mawrth 2018 tan ddydd Gwener 13 Ebrill 2018 | Dydd Llun 26 Mawrth 2018 tan ddydd Gwener 6 Ebrill 2018 |
| **Hanner tymor yr Haf (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol )** | Dydd Llun 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 | Dydd Llun 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 |
| **Diwrnod olaf y flwyddyn ysgol 2017-18** | Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 | Dydd Gwener 20 Gorffennaf 2018 |